

BRECHLYN AR
Y GORWEL

WILIA

RHIF 431 RHAG 2020/ION 2021
AM DDIM

PAPUR MISOL
CYMRAEG ABERTAWE

Cylch Meithrin Meini Bach yn camu ymlaen

Mae Cylch Meithrin Meini Bach, sydd wedi'i leoli yn Ysgol Gymraeg y Cwm, Bonymaen yn dathlu cyfnod cyffrous newydd ar ôl bod yn llwyddiannus yn ei gais i gofrestru gyda'r AGC (Arolygaeth Gofal Cymru).

Fe fydd y Cylch yn medru cynnig gofal sesiynol, dydd a gofal bugeiliol o'r flwyddyn newydd ymlaen i blant yr ardal o 2 oed ymlaen. Mae'r Cylch yn cynnig gofal mewn ystafell benodedig ddeniadol a chartrefol gydag ardal

allanol. Mae'r Gymraeg yn cael ei hyrwyddo yng Nghylch Meithrin Meini Bach drwy amrwiaeth o weithgareddau chwarae hwylus, creadigol a chanu.

Mae'r plant sy'n mynychu wrthi yn creu cardiau a rhoddion Nadolig ac yn brysur yn paratoi ar gyfer Sion Corn eleni.

Cysylltwch â Mari, arweinydd y Cylch am fwy o wybodaeth ac i gofrestri/bwcio lle.



Cymdeithas Gymraeg Treforys a'r Cylch i gyfarfod eto

Ym mis Chwefror 2020 cawsom gwmni Dr Beth Thomas, gynt o Amgueddfa Werin Cymru. Gyda chymorth John Evans (Cwmtawe), Derwyn Morris Jones (Rhosllanerchrugog), Elizabeth Morgan a Llinos Owen (Cwm Gwendraeth), Eurof Rees (Aberteifi) a Brythonig Morgan (Sir Drefaldwyn) fe gawsom noson ddiddorol yn trafod yr amrwiaethau tafodieithol ymhlith ein haelodau. Doedd neb yn

sylweddoli y noson honno na fyddwn yn gallu dod ynghyd i gyfarfodydd o'r Gymdeithas am weddill y flwyddyn. Serch hynny rydym yn gobeithio ail agor y Gymdeithas ym mis Mawrth neu Ebrill yn 2021 .

Rydym eisoes wedi ail drefnu ein taith i Gaernarfon a Sir Fôn ar gyfer Mai 10-15 2021. Edrychwn ymlaen at gyflwyno manylion am Raglen 2021 y Gymdeithas yn y rhifyn nesaf o " Wilia."

LLYFRAU AC

ANRHEGION NADOLIG

**Oriau Agor Siop Tŷ Tawe
Dydd Iau a Dydd Gwener
10—5; Dydd Sadwrn 10 –2
A gobeithio Mawrth a Mercher:
Ffoniwch 456856**

Hoffai

**Cymdeithas Gymraeg
Treforys a'r cylch
ddymuno Nadolig Llawen a Biwyddyn
Newydd Well yn 2021 i'w haelodau ac
i holl ddarllenwyr Wilia, gan edrych
ymlaen at rannu ei rhaglen newydd
maes o law.**

Adduned Blwyddyn Newydd

gan Rob Evans

Dyma ni ym mis Rhagfyr a phawb yn **meddwl am y Nadolig, mi fydd hi'n** Nadolig hollol wahanol y tro hyn efo **pawb yn ansicr o'r ffordd gorau i** ddathlu. A fydd yn well cael dathliad dros y Pasg y tro yma neu a fydd popeth yn iawn i gael y teulu draw fel arfer? Does dim sicrwydd, nac oes. Beth **bynnag dach chi'n ei** benderfynu, gobeithio y cewch chi Nadolig dedwydd.

Yn syth ar ôl y Nadolig mi fydd pawb yn holi ei gilydd **am addunedau'r Flwyddyn Newydd** ac wrth fynd yn hŷn mae'n anodd iawn meddwl am un gwreiddiol. Y ffefryn **flynyddoedd yn ôl oedd rhoi'r gorau i** ysmegu ond does fawr neb yn gwneud hynny'r dyddiau yma. A oes gennych chi adduned arbennig mewn golwg? Mwy na thebyg nad ydych wedi meddwl am y peth eto.

A gaf i awgrymu rhywbeth? Rhywbeth **a fydd yn gwneud lles mawr i'r iaith Gymraeg, i'ch cymunedau a'ch** cymdeithasau. Gwnewch adduned i ddod i adnabod dysgwyr.

Y peth cyntaf mae'n rhaid i chi wneud yw darganfod enw'r tiwtor yn eich **dosbarth nos leol, ble a phryd mae'r** gwersi yn cael eu cynnal. Bydd eich **Menter iaith leol yn siŵr o wybod y** manylion. Ar hyn o bryd mae'r gwersi yn cael eu cynnal dros Zoom ond siaradwch efo'r tiwtor a gofynnwch sut y gallech chi helpu. Yn nes ymlaen heddiw dw i'n cymryd rhan mewn cyfarfod Zoom efo dysgwyr Cymdeithas Cymraeg Cas-gwent.

Mae mor bwysig i ddysgwyr dod i **adnabod y Cymry Cymraeg sydd o'u** cwmpas ac mi fydddech chi'n cael boddhad o wybod eich bod yn helpu nhw i ddod i mewn i'r byd Cymraeg go iawn. Ar ddechrau'r cyfnod clo roeddwn i, fel llawer o bobl eraill yn poeni am sut y bydden ni'n ymdopi a phenderfynais aialsefydlu cylchlythyr roeddwn i'n cyhoeddi

ar gyfer dysgwyr ugain mlynedd yn ôl.

Enw'r cylchlythyr oedd Y Wennol ac roeddwn i'n ei chyhoeddi am bedair blynedd. Dysgwyr oedd yn ysgrifennu'r erthyglau ac roedd llawer o ddysgwyr yn eu darllen. Roedd copi yn mynd allan i'r Wladfa pob mis.

Ond sut i lenwi tudalennau'r Wennol yma ar ei newydd wedd? Wel roeddwn i'n ymwybodol o grŵp o ddysgwyr a oedd yn cyfarfod yng nghaffi'r Three Cliffs yn

Southgate ac wedi bod yna i siarad â nhw ychydig o weithiau.


Mi nes i gysylltu â nhw, esbonio beth oedd gennyf fi mewn golwg a gofyn a fydden **nhw'n fodlon**

ysgrifennu erthyglau i mi. Ces i ddigon i lenwi pedwar tudalen ac roedd y rhifyn cyntaf allan mewn tair wythnos. Erbyn **hyn mae pedwar ohonom ni'n** ysgrifennu'n gyson ac ar ddechrau mis Rhagfyr roedd y nawfed rifyn allan ac wedi tyfu i naw o dudalennau.

Mae'r holl brofiad wedi fy atgoffa fi am ba mor dalentog yw dysgwyr ac mae gwerth mawr i gael wrth eu cefnogi nhw. Mae llawer o bobl yn dysgu Cymraeg **ond pam? Pam maen nhw'n dysgu?** Wedi'r cwbl mae pawb yn gallu siarad **Saesneg? Maen nhw'n dysgu achos** maen nhw eisiau dod i mewn i'r gymuned Cymraeg ond mae llawer yn digalonni ar ôl methu dod o hyd i ddrws ein byd **arbennig. Y gwir yw mae'n llawer haws i** ni ddarganfod drws eu cymuned nhw. Maen nhw yn eich dosbarth nos leol bob **wythnos. Ewch i'w gweld nhw!**

Er mwyn dangos pa mor dalentog mae dysgwyr yn gallu bod yn dilyn yr **erthygl yma mae tair erthygl mae'r** Wennol wedi cyhoeddi, gwaith dysgwyr. Darllenwch nhw a gofynnwch - pa mor werthfawr bydd hi i gael mwy o ddysgwyr yn eich plith, i gefnogi nhw ac i feithrin nhw. Mae ein hiaith fach annwyl ni eu hangen nhw, maen nhw'n rhan o **ddyfodol yr iaith. Peidiwch â cholli'r cyfle** enfawr yma.

Nadolig llawen i chi gyd a phan ddaw'r amser blwyddyn newydd dda a phob llwyddiant i chi ac i'r iaith.



Fan Hyn a Fan Co' gan Anne Gwynne

Roedd Anne Gwynne yn ysgrifennu colofn am deithiau maes Cymdeithas Edward Llwyd ym mhapurau bro Y **Ddolen a'r Barcud, yn ardal Tregaron.** Nid dim ond pob hyn a hyn ond bron yn ddi-dor rhwng 2004 a 2018. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae hi wedi bod yn brysur yn taflu ei llygaid drostyn nhw unwaith eto. Mae detholiad o 38 wedi dod at ei gilydd i greu cyfrol fach hwylus gyda lluniau braf a hanesion o rai o lecynnau braf sir Ceredigion a thu hwnt. Bydd ar werth yn eich siopau lleol cyn y Nadolig am £7.95 neu oddi wrthi hi, Anne Gwynne ar 01794 298995. Rhennir unrhyw elw rhwng Cymdeithas Edward Llwyd, Ambiwllans Awyr Cymru ac Adran Cemothepari, Ysbyty Bronlais.

Wilia Bach

yng ngofal Elin Meek

Diolch yn fawr i'n cyfranwyr.

Daliwch i anfon, ar gyfer rhifyn mis Chwefror, erbyn Ionawr 22:

wilia@hotmail.co.uk

Golygydd y mis nesaf: Mark Stonelake



Y Fronfraith, Anti Hilda a Fi

Ar fy nhaith foreol ddoe roeddwn i wedi mynd â fy mheiriant recordio efo fi.

Mae cymaint o adar yn canu yn yr awr cyn y wawr ac **mae'n gyfle da i recordio cyn i'r holl geir ddechrau lenwi'r ffyrdd.**

Meddyliais mai dim **ond pwyso'r**

botwm oedd rhaid ond nad oeddwn wedi gosod y lefelau, **felly doedd dim un o'r lleisiau melys** wedi cael ei ddal.

Er mwyn paratoi am gael ail gyfle 'nes i eistedd yn yr ardd i baratoi'r peiriant er mwyn gwneud ail ymdrech heddiw. Doedd dim llawer o adar yn canu ar y pryd ond digon i mi wneud yn siŵr bod popeth wedi cael ei osod yn iawn. Wrth bwysu'r botwm i wrando ar y canlyniadau, nid yr adar oedd yn canu ond Anti Hilda yn siarad! Tair blynedd ynghynt roeddwn i wedi mynd i'r gogledd yn y campyrfan ac yn ystod yr ymweliad wedi galw i weld Anti Hilda efo Gwylan, fy nghyfnither. Heblaw am y pleser o weld Anti Hilda roedden ni'n gobeithio recordio sgwrs.

'Nes i osod y meicroffon ar y bwrdd, pwyso'r botwm a ffwrdd â ni. Siaradon ni am seiclo a

hithau'n sôn am yr amser wnaeth hi ac Anti May, a oedd yn hŷn na hi, seiclo o Ddolgellau'r holl ffordd i Gymoedd y De. Aros mewn Youth Hostels oedden nhw. Roedd Anti May yn hŷn

coed afalau, mae'r adar yn hoff iawn o'r darn yna - llawer o fwyd blasus! Roedd hi'n hapus ei fyd yn chwilo a phob hyn a hyn yn aros i syllu arnaf. Y ddau ohonom yn fodlon iawn i rannu'r ardd.

Gofynnod Gwylan i'w mam a oedd hi'n cofio'r amser aethon nhw i aros yn Stratford a mynd i theatr yr RSC. Oedd mi oedd. A oedd hi'n cofio mynd i'r theatr arall 'The Other Place' i weld y ddrama Gardd Eden? gofynnodd Gwylan. Oedd mi oedd a wnaeth hi ychwanegu efo cyffro "and they were all nude!"

Dim ond ar y llwyfan wrth gwrs, roedd y gynulleidfa yn gymharol barchus. Wedi i mi glywed hi'n dweud hyn syrthiodd y recorder oddi ar fy nglin a throi ei hun i ffwrdd. Codais fy mhen i weld y fronfraith yn heglu hi o'na efo'i hadenydd yn dynn dros ei chlustiau mewn syndod.

Does dim ffordd i wneud 'fast forward' ar y recorder ac roedd hyn wedi digwydd yn awr i mewn i'r sgwrs felly nad ydw i'n cofio mwy. Ond gan fod y straeon gorau i gyd yn gorffen efo 'cliffhanger' mi wna i adael popeth yn fanna. Hwyl fawr i chi, a'ch dychymyg!

Rob Evans



Y Fronfraith



Anti Hilda a Fi

ac yn gryfach ond mi roedd hi'n aros ar ben yr ellydd er mwyn i Anti Hilda ddal i fyny, ond wedyn mynd ymlaen yn syth ar ei thait! Doedd Anti Hilda ddim yn cael cyfle i gael ei gwynt yn ôl! Aeth tair o'r chwiorydd i seiclo yn ardal Llyn hefyd. Dyna le oedden nhw'n edmygu harddwch y wlad o'u cwmpas ac un yn codi ei braich i dynnu sylw at safle'r ysgol fomio.

Collodd ei chydbwysedd a syrthio yn erbyn y chwaer ar y chwith, hithau'n taro'r drydedd chwaer a'r tair yn glanio yn un pentwr ar y llawr. A pham bod rhaid mynd mor bell ond i chwarae dominos dwedwch? Wrth gwrs doedd y ffyrdd ddim mor brysus ag heddiw ond sut oedd eu cyflwr? Gyda llaw roedd wyth chwaer, druan o Taid ynte!

Wrth i mi eistedd yn yr ardd yn gwrandao ar hyn sylwais ar fronfraith yn crwydro o dan y

Smyglwyr Pwll Du gan Martin Jones



Bae Pwll Du

Dw i wedi sôn yn barod am Fae Pwll Du gan ganolbwyntio ar y chwarel calchfaen yno. Ond nid y chwarel oedd yr unig ddiwydiant ym Mhwll Du, achos roedd y lle yn berffaith ar gyfer smyglu! Mae rhai pobl wedi honni y cafodd mwy o nwyddau gwaharddedig eu glanio ym Mhwll Du nag unrhyw le arall ar arfordir Môr Hafren! Mae'r bae'n gysgodol ac yn ddiarffordd, a

gallai'r cychod gyrraedd pen y traeth. O Bwll Du cafodd y nwyddau eu cludo lan Cwm Llandeilo Ferwallt lle'r oedd y coed yn darparu ffyrdd cudd allan o'r golwg.

Roedd smyglu ar ei anterth ym Mhwll Du yn y drydedd ganrif ar bymtheg. Mae'n ymddangos taw yn y cyfnod hwnnw fferm Great Highway (ar y ffordd i mewn i Bennard) oedd pencadlys y smyglwyr a William Arthur, perchennog y fferm, oedd arweinydd y criw. Roedd John Griffiths o fferm Little Highway (yn agos iawn at Great Highway) yn ddirprwy iddo.

Am amser hir roedd dim ond tri swyddog tollau ar gyfer Gŵyr i gyd, a ni allent wneud llawer i atal y fasnach werthfawr hon. Roedd eu llwyddiannau yn erbyn y smyglwyr yn brin iawn, er ym 1789 cafodd William Arthur ddirwy o bum punt a phum ceiniog am "ddal a chuddio nwyddau gwaharddedig."

Yn ôl un stori, daeth swyddogion

tollau o hyd i gasgen o jin neu frandi yng nghrogloff tŷ William Arthur. Anfonodd y prif swyddog ei ddyinion i ddod â cheffyl er mwyn symud y dystiolaeth, ac arhosodd yntau i warchod y gasgen. Ond gwnaeth Arthur i'w weision godi trwr yn yr ystafell islaw wrth iddo fe durio twll trwy'r nenfwd ac i mewn i'r gasgen er mwyn ei wagio! Pan ddychwelodd y swyddogion eraill, roedd y dystiolaeth wedi diflannu!



Fferm Great Highway

SMYGLWYR—PARHAD

Ond ymhen hir a hwyr, ym 1804, trwy hap a damwain, dysgodd y swyddogion tollau bod glaniad o nwyddau yn ddisgwylliedig, a llwyddon **nhw i wyllo'r nwyddau yn cyrraedd fferm Great Highway**. Anfonon nhw am atgyfnerthiadau, ond erbyn iddyn nhw gael mynediad roedd y **nwyddau wedi diflannu a doedd ddim byd i'w weld!** Chwilion nhw trwy'r tŷ heb lwyddiant cyn sylwi bod rhywbeth o'i le â llawr y gegin. Daeth chwiliad pellach â thrap ddorau i selerau cudd i'r golwg, nid yn unig yn y tŷ ei hun ond hefyd yn yr adeiladau fferm eraill. Daeth y swyddogion tollau o hyd i fwy o selerau cudd tebyg yn fferm Little Highway. Rhwng y ddwy fferm cydion nhw

yn fwy na phedwar can casgen o wirodydd, a dyna oedd dechrau diwedd smyglo ar raddfa fawr ym Mhwll Du. Erbyn y 1850au roedd smyglo ym Mhwll Du bron â dod i ben. Roedd posibilrwydd o gael eich dal wedi cynyddu. **Hefyd roedd yr elw i'w gwneud o smyglo wedi lleihau o ganlyniad i ostyngiadau mewn tollau.** Mewn geiriau eraill, doedd yr elw ddim yn werth y fenter. **Y dyddiau hyn, mae Pwll Du'n lle mor dawel, ond wrth i chi gerdded dros y traeth (neu fentro i mewn i'r môr), mae'n werth cymryd cwpl o funudau i feddwl am hanes yr ardal a'r holl weithgareddau sydd wedi digwydd yno.**

garchar? Er ei fod weithiau'n anghyfforddus, **mae hi'n bwysig cofio, neu ddarganfod, manylion hanes pobl dduon yng Nghymru.** Pethau hanesyddol, pethau drwg, fel y terfysgoedd hiliol yng Nghaerdydd yn 1919, a hefyd pethau i ddathlu - Cymry enwog fel Shirley Bassey, a Colin Jackson. Ond beth am Billy Boston, chwaraewr rygbi rhagorol na chafodd gyfle erioed i gynrychioli ei wlad? Mae stori gan bron pob person du o hiliaeth yn ei fywyd,

Hanes Cymru a Hanes Pobl Dduon

gan Shelagh Fishlock

Mis Hydref oedd mis Hanes Pobl Dduon felly cyfle i fyfyrion am berthynas Cymru â hanes trefedigol Prydain. Dyw hynny ddim yn syml.

Mae ystadau a chestyll ledled Cymry wedi cael eu datblygu gan gyfoeth yn seiliedig ar **fasnach gaethweision a'r Ymerodraeth Brydeinig**, ac yn aml adeiladwyd ffyrdd, **ysgolion, tai ac eglwysi o'u cwmpas.** Ond nid Cymry oedd mwyafrif y perchnogion, gan fod Cymru hefyd yn wlad drefedigol, wedi gweld ei chyfoeth naturiol - **glo, haearn, llechi, dŵr** - yn llenwi pocedi barwniaid diwydiannol Saesneg.


Felly faint pwysicach i bobl Bethesda yw hanes brwydr chwerw gweithwyr y chwareli llechi yn erbyn teulu Arglwydd Pennant yn y 20fed ganrif, na tharddiad eu cyfoeth 200



Vernesta Cyril

mlynedd o'r blaen? A sut i esbonio bywyd Valentine Morris, perchennog afradlon Plas Piercefield, Cas-gwent? Mab anghyfreithlon perchennog planhigfa a chaethwas yn Antigua oedd e, anfonwyd i Loegr am ei addysg yn yr 18fed ganrif. Etifeddodd y plasty a hefyd caethweision a phlanhigfa ei dad, ac mae'n debyg nad oedd e'n poeni am wario ei gyfoeth.

Mae celf y cyfnod yn darlunio pa mor boblogaidd oedd cael gweision bach du, oedd **yn gwisgo colerau metal i ddangos bod nhw'n gaethweision.** Ond hefyd mae stori John Ystumllun (Jac Du), a gipiwyd 'yn yllt' yn Africa yn 1742 fel pe bai'n anifail. Ar ôl



cyrraedd Cymru, cafodd e ei fabwysiadu gan **y teulu Wynn a'i fagu fel rhan o'r teulu, felly** roedd yn siarad Cymraeg. Roedd yn gweithio yn y gerddi. Roedd wedi syrthio mewn cariad â Margaret Roberts a rheddodd i fwrdd er mwyn ei phriodi. Aeth yn ôl at y teulu a cafodd ei swydd yn ôl. Cafodd fwthyn a



Plas Piercefield

gardd fawr gan Ellis Wynn. Roedd pump o blant gan John a Margaret ac roedd llawer **o'u disgynyddion yn dal yn byw yn yr ardal yn 2019.** Mae bedd John mewn mynwent ger Cricieth, Gwynedd.

Does dim atebion hawdd i hanes y wlad, a hyd yn oed y dyddiau yma dyw pethau ddim mor syml. Bu protestiadau yn ddiweddar yn Sir Benfro yn erbyn defnyddio hen ganolfan milwrol Penalun ar gyfer ceiswyr lloches. Ydy hynny'n esiampl o hiliaeth, ymgyrch yn erbyn llywodraeth San Steffan neu gefnogi ffoaduriaid archolladwy rhag gorfod byw mewn lleoliad hollol anaddas, yn debyg i



John Ystumllun

pethau "bach" neu bethau ofnadwy sy'n cael effaith ar ei hunan-barch fel dinesydd. Mae'r fis hon yn gyfle i gydnabod ac yn herio'r hiliaeth sy'n dal i fodoli yn ein cymdeithas, a hefyd i ddathlu'r cyfraniad mawr gan gymaint o Gymry duon i fywyd y wlad. Pobl fel Iris Williams o Rydyfelin, cantores jazz a enillodd Cân i Gymru yn 1974; Leonard Hinds, morwr yn y Rhyfel Byd Cyntaf, a'i blant, cyngorydd a maer Bro Morgannwg yn y saithdegau; neu Vernesta Cyril, Bydwraig y Flwyddyn 2006.

Beth am ddilyn y linc

www.walesonline.co.uk/news/wales-news/brilliant-black-welsh-celebration-100-15173754 i ddysgu mwy?

CLWB CEFNOGWYR TY TAW

- Canolfan Gymraeg Abertawe
 - Siop llyfrau Cymraeg
 - Digwyddiadau cerddorol
 - Lle i ddysgu Cymraeg
 - Y Gymraeg ynghanol y ddinas
- Am fanylion cefnogi, anfonwch at

Rhian Jones:
calonlan13@yahoo.com